# PWYLLGOR IAITH: 30 MEHEFIN 2025

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:**

Alan Jones Evans, Beth Lawton, Jina Gwyrfai, Elfed Williams, Anne Lloyd-Jones, Gwilym Jones, Hefin Underwood, Gwynfor Owen, Elfed Wyn ap Elwyn, Menna Baines, Meryl Roberts, Olaf Cai Larsen a Llio Elenid Owen (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a dros y Gymraeg).

**Swyddogion**: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg), Nia Lewis (Ymgynghorydd Iaith) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Eitem 7: Sian Iolen Pritchard (Uwch Swyddog Gweithredol, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Aled Gibbard (Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro), Nia Wyn Evans (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Gweithlu, Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol) a Sian Edith Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Menna Baines yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2025-26.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Meryl Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2025-26.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Beca Brown a Rhys Tudur.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

**6. COFNODON**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025 fel rhai cywir.

7. **ADRODDIAD YR ADRAN OEDOLION IECHYD A LLESIANT AC ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Uwch Swyddog Gweithredol, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro, Arweinydd Tim Cefnogi'r Gweithlu, Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol a Phennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'u gwaith.

Tynnwyd sylw at gynllun 'Mwy na Geiriau', sef Fframwaith Strategol a gyhoeddwyd yn 2016 ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg yn y meysydd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Pwysleisiwyd bod y fframwaith hwn yn ganolog i waith yr Adrannau er mwyn sicrhau bod cynnig gweithredol o ofal Gymraeg ar waith yn ymarferol o fewn y gwasanaethau.

Mynegwyd balchder bod datblygiad ap 'Niwro' yn adnodd arloesol ar gyfer cefnogi unigolion niwro-wahanol drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod defnydd o'r ap hwn yn codi statws yr iaith Gymraeg mewn maes ble nad yw'n derbyn ystyriaeth briodol yn hanesyddol.

Cyfeiriwyd at ddatblygiad cynllun Cartrefi Grŵp Bychan ar gyfer plant mewn gofal, gan adrodd bod y cynllun hwn yn caniatáu i blant mewn gofal aros o fewn eu cymunedau Cymraeg a pharhau i deimlo'n perthyn i'r iaith a'r diwylliant lleol.

Nodwyd bod cynlluniau o fewn y gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar, i ymestyn cyfleoedd chwarae a chynnig gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyfrannu at greu amgylchedd naturiol ble all plant defnyddio'r iaith heb ymdrech. Ymhelaethwyd bod cynlluniau i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu hefyd yn hanfodol i sicrhau gwasanaethau cyraeddadwy a dwyieithog.

Rhannwyd enghraifft o brosiect cydweithredol trawsadrannol 'Croesi'r Bont'. Manylwyd bod y prosiect hwn yn cadarnhau bod cyfathrebu esmwyth yn y Gymraeg rhwng gwasanaethau. Ymhelaethwyd bod hyn yn caniatáu i'r defnyddiwr fod yn ganolog i'r prosesau.

Atgoffwyd bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn canolbwyntio'n gryf ar brosiectau sydd ynghlwm â phrosiect Gwynedd Ofalgar o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd. Ymhelaethwyd bod moderneiddio cartrefi gofal, adnoddau cymunedol a llety i drigolion Gwynedd. Pwysleisiwyd bod defnyddio technoleg ar gyfer dod i adnabod anghenion lleol yn hanfodol i'r gwaith, gan gadarnhau bod cydweithio clos parhaus ar waith gyda'r Gwasanaeth Iechyd er mwyn hyrwyddo iechyd oedolion.

Tynnwyd sylw bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ymdrechu i newid diwylliant yn barhaus er mwyn sicrhau gwasanaethau i'r dyfodol. Nodwyd hefyd bod cynlluniau hyfforddi yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y gweithlu yn gymwys i fynd i'r afael ag anghenion trigolion Gwynedd i'r dyfodol. Eglurwyd hefyd bod system gofal cynaliadwy yn weithredol er mwyn hyrwyddo lles oedolion, gan gadarnhau bod cynnal y system hon yn flaenoriaeth i'r adran.

Adroddwyd bod gwaith parhaus yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod technoleg addas i bwrpas yn weithredol o fewn y maes gofal, ac bod modd ei ddefnyddio yn y Gymraeg. Rhannwyd enghraifft o holiadur 'Percy' sy'n mesur ansawdd gofal o bersbectif yr unigolyn

sydd yn ei dderbyn. Pwysleisiwyd bod yr holiadur hwn wedi cael ei gyd-gynllunio gan bobl sydd gyda profiad o dderbyn gofal. Mynegwyd balchder bod fersiwn Cymraeg o'r holiadur ar gael.

Ymhelaethwyd bod yr Adran wedi bod yn gweithio ar feddalwedd 'AskSara', meddalwedd ar gyfer therapi galwedigaethol rhithiol i oedolion, plant a theuluoedd. Atgoffwyd bod y system hon yn caniatáu i ddefnyddwyr hunanasesu eu hanghenion. Mynegwyd balchder bod y meddalwedd hwn bellach ar gael yn y Gymraeg ar gyfer pawb yng Nghymru. Tynnwyd sylw bod y gwasanaeth yn defnyddio'r meddalwedd hwn dan enw 'Helpu'n Hun'.

Diweddarwyd bod y gwasanaeth yn gweithio ar offer Teleofal newydd, sydd ar drac i gael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2025. Sicrhawyd bydd y dechnoleg hon ar gael yn y Gymraeg, gan fod swyddogion yn cydweithio gyda'r cwmni er mwyn cyfieithu'r cod technolegol er mwyn gallu cefnogi gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithiol.

Eglurwyd bod system gofnodi'r gwasanaeth yn trosglwyddo o WCCIS i Mosaic o fewn y flwyddyn nesaf. Pwysleisiwyd bod holl wasanaethau gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio arno. Pwysleisiwyd bod Cyngor Gwynedd yn sicrhau bod y system newydd hwn ar gael yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Cydnabuwyd bod rhai o heriau presennol yn cynnwys recriwtio gweithwyr sy'n meddu â sgiliau'r Gymraeg yn ogystal â sicrhau bod technoleg Gymraeg ar gael i weithwyr a defnyddwyr. Eglurwyd bod recriwtio gweithwyr proffesiynol i'r maes yn her, gan gydnabod bod heriau penodol mewn ardaloedd o'r Sir. Rhannwyd enghraifft o anhawster recriwtio therapyddion galwedigaethol sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ers rhai misoedd. Eglurwyd bod hyn wedi gorfodi'r adran i recriwtio unigolion drwy asiantaethau, gan nodi nad oes ganddynt sgiliau ieithyddol. Cyfeiriwyd at yr Academi Gofal gan fynegi gobaith y bydd yn denu siaradwyr Cymraeg i ddilyn gyrfa o fewn y maes gofal yn y dyfodol  Fodd bynnag, mae'r Adrannau yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o ddarpariaeth yn y maes cymdeithasol yng Ngwynedd, gan ymgymryd â phrosiectau arloesol i sicrhau datblygiadau newydd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad am anawsterau i sicrhau cyfleoedd dysgu cysylltiedig megis prentisiaethau, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod nifer o gynlluniau ar waith ar gyfer cynorthwyo gweithwyr digymhwyster i ddatblygu eu sgiliau a'u profiad er mwyn cymhwyso yn y maes. Nodwyd bod 3 prentis wedi cymhwyso eisoes gyda 2 unigolyn arall wedi cychwyn ar y siwrne prentisiaid yn ddiweddar. Eglurwyd bod 12 o gyfleoedd i brentisiaid yn flynyddol, yn ddibynnol ar gyllidebau'r Adrannau: 8 o brentisiaid yn cael eu penodi drwy'r Academi Gofal yn ogystal â 2 gyfle hyfforddi yn y meysydd therapi galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol.  Pwysleisiwyd bod yr unigolion hyn yn derbyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd mai dim ond 30 ymgeisydd oedd wedi cymryd rhan ym mhroses recriwtio'r Academi Gofal y llynedd, gyda nifer o'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn derbyn rolau cysgodol o fewn meysydd penodol er mwyn ennyn hyder a phrofiad i'r dyfodol. Ymhelaethwyd bod Gofalwyr Gogledd Cymru yn annog unigolion i gymhwyso yn y maes gan ddarparu cyngor a chymorth ariannol.

Gofynnwyd am fanylder ynglŷn â pha ardaloedd sydd yn profi heriau recriwtio yn fwy nag eraill ar hyn o bryd. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant mai De Meirionnydd yw'r ardal ble mae'r prif heriau yn ymddangos ar hyn o bryd. Sicrhawyd bod yr Adran yn parhau i hysbysebu swyddi yn yr ardal hon ond bod rhaid comisiynu asiantaethau i gynorthwyo gyda llenwi rolau yn y pen draw er mwyn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau

sydd eu hangen arnynt. Cydnabuwyd mai blaenoriaeth yr asiantaethau hyn yw bod unigolion cymwysedig yn cael eu penodi i'r swyddi gan olygu nad ydynt o reidrwydd yn meddu â sgiliau'r Gymraeg. Yn yr un modd, cadarnhaodd Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro bod heriau recriwtio ar gyfer ardal De Meirionnydd o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd hefyd. Rhannwyd bod yr adran wedi bod yn cydweithio gyda Coleg Meirion Dwyfor yn Nolgellau sydd wedi arwain at gryn diddordeb o fewn y maes gofal yn yr ardal ac bod rhai swyddi wedi cael eu llenwi o'r herwydd. Sicrhaodd y ddwy adran bod unrhyw unigolyn sydd yn cael ei recriwtio pan mae heriau o fewn ardaloedd penodol o'r sir yn gweithio o fewn yr ardaloedd hynny er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth, a gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar pob cyfle posib.

Mewn ymateb i eglurder ar nifer ganrannol o swyddogion yr Adrannau sydd wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod 93.6% o staff yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac 88.8% o saff yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi ei gwblhau. Eglurwyd bod y mwyafrif o'r staff wedi ei gwblhau yn annibynnol, gyda chyfran o'r gweithwyr yn cwblhau'r hunanasesiad gyda'u rheolwr gan nad oes ganddynt fynediad i'r holiadur yn annibynnol yn sgil natur rheng flaen eu swydd.

Tynnwyd sylw bod 81% o staff yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi, gan holi pa gymorth sydd yn cael ei ddarparu i sicrhau bod yr Adran yn ymrwymo i Bolisi Iaith y Cyngor drwy ddarparu cymorth i'r 19% arall o'r gweithlu sydd ddim yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi. Mewn ymateb, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod y Cyngor yn cydweithio gyda Chymraeg Gwaith er mwyn mynd i'r afael a'r her hon megis drwy gynnal sesiynau hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg i weithwyr yr Adran. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn yn gallu bod yn anodd ei sefydlu gan fod natur shifftiau gwaith gweithwyr yr adran yn amrywiol, gan nodi bod angen sicrhau i natur unrhyw hyfforddiant fod yn hyblyg. Ymhelaethwyd bod adnoddau ar lein ac hunan-astudiaethol hefyd yn cael eu hystyried. Yn yr un modd, nodwyd bod Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cynnig hyfforddiant ar lein gyda sesiynau blasu ar gael i weithwyr gofal. Pwysleisiwyd bod cynllun cyfeillio'r Cyngor yn bwysig iawn o fewn y maes gofal, gan egluro bod y cynllun yn paru unigolyn sy'n dymuno ymarfer eu sgiliau Cymraeg, gyda gweithiwr arall sydd yn barod i helpu. Eglurwyd bod hyn yn allweddol er mwyn codi hyder dysgwyr Cymraeg ac yn cael cyfle i ymarfer eu sgiliau yn y gweithle.

Mynegwyd balchder bo 50% o unigolion sy'n defnyddio llinellau ffôn cenedlaethol Cynnig Gofal Plant Cymru, gan ddefnyddio'r opsiwn i gyfathrebu yn Saesneg, yn penderfynu troi i'r Gymraeg wedi iddynt sylweddoli bod y gweithiwr sydd wedi ateb y galwad yn siarad Cymraeg. Nodwyd yr angen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd bod y gwasanaethau ffôn hyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg fel eu bod yn ei ddewis ar ddechrau'r alwad, gan bwysleisio bod y galwadau hyn yn cael eu gwneud gan rieni. Ymhellach, nododd Uwch Swyddog Gweithredol, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd bod Cynnig Gofal Plant Cymru yn gwneud gwaith pellach ar hyn fel rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Nododd Arweinydd Tim Cefnogi'r Gweithlu, Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol bod cyfresi o fideos bychan ar gael i staff a chynghorwyr, wedi ei datblygu gan ymgyrch Mwy na Geiriau. Eglurwyd bod y rhain yn annog pawb i gychwyn sgyrsiau yn y Gymraeg, a rhannwyd enghraifft o un ohonynt o fewn y cyfarfod. Tynnwyd sylw gall hyn fod yn ddefnyddiol i Gynghorwyr wrth gyfathrebu gyda thrigolion eu hetholaeth gan bwysleisio ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer holl weithwyr y Cyngor.

Trafodwyd addysg drochi o fewn blynyddoedd meithrin yng Ngwynedd gan fynegi balchder bod y gwasanaeth Croesi'r Bont yn effeithiol iawn o fewn y Mudiad Meithrin. Mynegwyd balchder bod 17 o leoliadau meithrin Gwynedd yn llwyddo i ddarparu addysg meithrin drwy gyfrwng y Gymraeg gan nodi llithriad mewn 2 leoliad sydd yn ei gynnig yn ddwyieithog.

Nodwyd pryder mai dim ond 41% o blant 3 oed a throsodd oedd wedi dewis Cymraeg fel eu hiaith addysg ddewisol yn 2023/24. Gofynnwyd am wybodaeth bellach i egluro'r sefyllfa hyn a chadarnhaodd Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro y byddai'n dod i gyswllt gyda'r Aelodau am wybodaeth bellach.

Manylwyd ar drefniadau ar gyfer plant mewn gofal gan ystyried os yw'r swyddogion yn hyderus eu bod yn derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn eu lleoliadau ac os oes addysg Gymraeg yn cael ei gynnig ar gyfer unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli y tu hwnt i'r Sir. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro mai'r prif flaenoriaeth mewn pob achos yw sicrhau bod y plant wedi eu lleoli mewn leoliad sydd yn addas i'w anghenion. Nodwyd bod hyn y golygu nad oes gofalwyr Cymraeg ar gael ond mae'r adran yn helpu i ddenu mwy o ofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg er mwyn sicrhau bod gofynion ieithyddol plant mewn gofal yn cael eu cyfarch. Cadarnhawyd bod y mwyafrif o blant mewn gofal o fewn y sir yn derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg ond ei fod yn heriol i sicrhau hyn ar gyfer unrhyw un sydd mewn lleoliad all-sirol, gyda problem mwy byth mewn lleoliadau preswyl i sicrhau gofal Cymraeg. Ymhelaethwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r adran Addysg er mwyn sicrhau bod adnoddau Cymraeg ar gael i blant mewn gofal, gan gadarnhau bod hyn yn bosib yn y mwyafrif o bynciau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu a tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd bod gofynion y Safonau Iaith yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin, yn unol ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ymhelaethwyd bod gofyn i'r adroddiad blynyddol rannu gwybodaeth megis Safonau 151, 152, 154, 158, 164 ac 170.

Adroddwyd bod 99.1% o staff y Cyngor yn meddu ar ryw fath o sgiliau yn y Gymraeg gan fanylu bod 90% o holl staff y Cyngor yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i gais am fanylder pellach i ddata sgiliau iaith y gweithlu, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod unrhyw aelod o staff sydd yn meddu a sgiliau'r Gymraeg, boed yn allu i gyfathrebu ychydig eiriau neu frawddegau yn Gymraeg neu'n cyrraedd lefel sgiliau Cymraeg hyfedredd yn gynwysedig.

Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae dynodiadau iaith ar gyfer swyddi yn cael eu pennu, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod rhain yn cael eu penderfynu gan y rheolwr llinell. Ymhelaethwyd byddai'r rheolwr yn ystyried ffactorau megis cyswllt gyda'r cyhoedd, gweithio mewn rhan o dim a'r angen i gyfathrebu'n ysgrifenedig cyn penderfynu ar dynodiad iaith addas ar gyfer swyddi. Nodwyd hefyd bod y rheolwr llinell yn nodi os bydd aelodau staff yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd. Atgoffwyd bod yr hunanasesiad iaith hefyd yn rhoi cyfle i aelodau staff rannu eu barn eu hunain am eu sgiliau ieithyddol.

Ystyriwyd bod sylwadau cyson gan Adrannau'r Cyngor yn nodi bod hyder yn amharu ar ganlyniadau staff wrth iddynt gwblhau'r hunanasesiad ieithyddol. Mewn ymateb i gwestiwn os ai gorhyderus neu ddihyder yw'r swyddogion yn eu gallu, pwysleisiodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg mai dihyder yn eu sgiliau yw aelodau staff. Manylwyd bod hyn yn enwedig yn wir ar gyfer agweddau sydd yn delio â sgiliau Cymraeg ffurfiol neu broffesiynol. Cadarnhawyd bod trefniadau mewn lle fel bod y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg yn cysylltu gyda'r rheolwr llinell berthnasol mewn achosion ble mae aelod o staff yn agos i gyrraedd dynodiad iaith y swydd, ond bod yr hunanasesiad yn nodi nad ydynt yn hyderus, gan nodi bod y rheolwr yn nodi bod yr aelod staff yn cyrraedd y dynodiad iaith yn y mwyafrif o achosion. Pwysleisiwyd bod cymorth ar gael i unrhyw un sydd ei angen er mwyn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Ychwanegwyd bod y gwaith sydd yn cael ei wneud ar y cyd gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i chwalu mythoedd am anghenion sgiliau iaith yn gymorth i gynyddu lefelau hyder staff y Cyngor.

Tynnwyd sylw bod yr adroddiad yn nodi bod 97% o holl osodiadau tai Gwynedd a osodwyd o fewn y Polisi Gosod Tai yn mynd i unigolion gyda chysylltiad â Gwynedd. Ymholwyd beth oedd diffiniad y gosodiad hwn ond penderfynwyd nad oedd swyddog priodol yn bresennol ar gael i fynd i'r afael a'r pwnc hwn.

Nodwyd bod nifer o sesiynau hyfforddiant y Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg a gofynnwyd beth sydd yn cael ei wneud er mwyn ceisio lleihau'r niferoedd hyn i'r dyfodol. Mewn ymateb, eglurodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu nad oedd yn hapus bod cynifer o sesiynau hyfforddiant Saesneg a bod gwaith yn mynd rhagddo i gysylltu gyda'r Adrannau er mwyn gweld pam bod hyfforddiant drwy gyfrwng y Saesneg yn parhau i gael eu cynnal a pha gymorth gall gael ei gynnig iddynt er mwyn addasu'r sesiynau hynny i fod yn rhai Cymraeg. Eglurwyd bod 447 o sesiynau hyfforddiant Cymraeg, 254 o sesiynau Saesneg ac 123 o sesiynau dwyieithog wedi cael eu cynnal yn ystod 2024/25.

Mewn ymateb i ymholiad am yr hyn a ellir ei wneud er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth rheolwyr o safonau'r Gymraeg, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod adnoddau ar gael ar dudalennau mewnol y Cyngor yn ogystal â diweddariadau cyson drwy gyfarfodydd timau rheoli.

Ystyriwyd y Fforwm Iaith gan ofyn os yw'r Cyngor yn Cydweithio gyda Mudiad Ffermwyr Ifanc er mwyn rhannu gwybodaeth o fewn yr Is-grŵp Pobl Ifanc. Mewn ymateb, cadarnhad yr Ymgynghorydd Iaith bod Mudiadau Ffermwyr Ifanc Eryri a Meirionydd yn derbyn gohebiaeth am yr Is-grŵp ond nid oes cynrychiolydd wedi bod yn bresennol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, sicrhawyd eu bod yn parhau i dderbyn y wybodaeth berthnasol ddiweddaraf. Mynegwyd dyheadau i'r berthynas yma gyda'r mudiad barhau i wella i'r dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Argymell i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a dros y Gymraeg i gyhoeddi'r adroddiad erbyn 30 Mehefin 2025.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:20yb.

**CADEIRYDD**